

Cynefino Gweithwyr Newydd mewn Cyd-destun Gwaith Hybrid

Mae cynefino dechreuwr newydd yn y Brifysgol yn dasg bwysig bob tro, o ran cefnogi'r unigolyn wrth wneud eu swydd yn effeithiol ond hefyd o ran ymgysylltu'n seicolegol gyda'n gwerthoedd, gweledigaeth a diwylliant. Pan fo'r dechreuwr newydd yn mynd i fod yn gweithio o leiaf rhywfaint o'u hamser o bell neu ar wahanol amseroedd i'w tîm, mae angen mwy fyth o ymdrech. Gall y canllaw hwn helpu i sicrhau bod sesiwn cynefino yn effeithiol a chefnogol.

Mae'r cynefino'n dechrau cyn y diwrnod cyntaf yn y gwaith. Dylai rheolwyr gadw mewn cysylltiad ag unigolion ar ôl cynnig swydd iddynt a sicrhau eu bod yn gwybod yn union beth i'w ddisgwyl pan fyddant yn cyrraedd. Yna, dylai'r broses ddysgu barhau dros yr wythnosau a misoedd i ddod. Nid digwyddiad unigryw yw cynefino.

- Sicrhewch fod gan y dechreuwr newydd yr holl offer sydd arnynt ei angen i wneud eu swydd yn effeithiol o'r cychwyn cyntaf, ble bynnag neu bryd bynnag maent yn gweithio. Dylai hyn gynnwys mynediad i'r holl systemau perthnasol, ardaloedd a rennir neu grwpiau tîm ar-lein neu sianeli cyfathrebu. Esboniwch sut i gael mynediad i bob system o bell lle bo hyn yn wahanol i fod ar y campws.
- Rhannwch egwyddorion gweithio hybrid ac egwyddorion cyfathrebu'r tîm. Os oes gan y tîm unrhyw reolau neu egwyddorion anffurfiol am weithio'n hyblyg, gwnewch yn siŵr eu bod yn cael eu cyfathrebu'n llawn. Gallai'r rhain gynnwys trefniadau ynghylch calendrau a rennir. Mae meddu ar normau tîm cytûn ar gyfer gwaith hyblyg yn elwa pawb.
- Defnyddiwch ein hadnoddau ar-lein a chysiau e-ddysgu i gefnogi'r dechreuwr newydd i ddeall gwybodaeth feirniadol am y brifysgol ac Addysg Uwch. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: <https://uowtsd.sharepoint.com/staffdevelopment/SitePages/New%20to%20role.aspx>
- Helpwch nhw i ddeall y diwylliant. Mae gan bob sefydliad ei ddiwylliant a'i ffordd ei hun o weithio. Hyd yn oed pan fydd rhywun yn gweithio o bell dylech eu helpu i'w ddeall a'i ddefnyddio. Rhannwch wybodaeth am weledigaeth a gwerthoedd y Brifysgol, yn ogystal â'n nodau a chynlluniau strategol.
- Hwyluswch gyfarfodydd rhwng y dechreuwr newydd a'r tîm, ac unrhyw gysylltiadau allweddol. Gall cyfarfodydd fod yn rhithiol neu'n wyneb i wyneb – ceisiwch gynnal cyfarfodydd 1 i 1 ar y cychwyn ar gyfer y perthnasoedd busnes hynny sy'n rhai hanfodol. Darparwch fentor neu gyfaill hefyd lle bo'n bosibl i gefnogi'r unigolyn yn ystod eu hwythnosau hanfodol cyntaf. Gall hyn oll helpu i wneud i rywun deimlo'n rhan o'r tîm.
- Dylech gynnwys peth cyswllt cymdeithasol. Gallai hyn fod yn goffi neu'n ginio anffurfiol yn ystod wythnos 1 (yn rhithiol neu'n wyneb i wyneb), gwahoddiad i unrhyw grwpiau cymdeithasol neu i fynd am dro o gwmpas y campws.
- Dylid cydbwyso amser ar y campws gydag amser adref yn ystod yr wythnosau cyntaf a lle bo'n bosibl, dylid cynnwys gwahoddiadau i ddigwyddiadau a chyfarfodydd rhithiol ac wyneb i wyneb.